# Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

## Cofnodion EUR(2) 01-06

### Dyddiad y cyfarfod: 26 Ionawr 2006
### Amser y cyfarfod: 9.00-12.00
### Lleoliad y cyfarfod: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd

#### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Sandy Mewies (Cadeirydd) | Delyn |
| Nick Bourne | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Rosemary Butler | Gorllewin Casnewydd |
| Jeff Cuthbert | Caerffili |
| Mike German | Dwyrain De Cymru |
| Christine Gwyther | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Ieuan Wyn Jones | Ynys Môn |
| Jonathan Morgan | Canol De Cymru |
| Rhodri Morgan | Gorllewin Caerdydd |
| Rhodri Glyn Thomas | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |

#### Gwahoddedigion Sefydlog

| | |
|---|---|
| Janet Davies AC | Pwyllgor y Rhanbarthau |

#### Swyddogion yn Bresennol

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Gary Davies | Pennaeth yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol |
| Des Clifford | Yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol |
| Rory O’Sullivan | Pennaeth yr Is-adran Polisi Cefn Gwlad |
| Anna Daniel | Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad |

### Eraill yn Bresennol

| **Enw** | **Yn cynrychioli** | **Eitem(au) agenda** |
|---|---|---|
| Andy Klom | Pennaeth Swyddfa’r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru | |
| Dr. Gabriele Matzner-Holzer | Llysgennad Awstria | 7 |

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

| | |
|---|---|
| Chris Reading | Clerc |
| Sarah Bartlett | Dirprwy Glerc |

### Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiannau

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Jonathan Evans ASE, Glenys Kinnock ASE, Eluned Morgan ASE a Rose D’Sa.

1.2 Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiant.

1.3 Nododd y Cadeirydd fbod y Pwyllgor wedi derbyn gwahoddiad gan Bwyllgor Undeb Ewropeaidd Ty’r Arglwyddi, i gyflwyno sylwadau ar ei ymchwiliad i sut y gallant gwneud mwy i egluro gwaith yr Undeb Ewropeaidd i’r cyhoedd yn gyffredinol. Gofynnwyd i Aelodau’r Pwyllgor gyflwyno unrhyw sylwadau i’r Clerc, a fydd yn paratoi ymateb i’w ddosbarthu i Aelodau.

1.4 Mae cofnod gair-am-air o’r cyfarfod ar gael.

### Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion yn codi

Papur: EUR(2) 09-05 – Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd

Papur: EUR(2) 01-06 – Camau heb eu Cymryd

2.1 Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd yn gofnod cywir.

## Eitem 3: Adroddiad y Prif Weinidog

Papur: EUR(2) 01-06 (p.1)

3.1 Cyflwynodd y Gweinidog ei adroddiad

Camau i'w Cymryd:

- Cytunodd y Cadeirydd y byddai eitem ar agenda'r cyfarfod nesaf i drafod cytundeb cyllideb yr UE a goblygiadau'r ffrwd ariannu 'Cydgyfeirio a Chystadleurwydd' i Gymru.
- Ar yr amod y bydd datblygiadau cyn y cyfarfod nesaf, cytunodd y Prif Weinidog i ddarparu nodyn i'r Pwyllgor ynghylch y broses ymgynghori ar gyfer pennu cwmpas yr ardal 87.3.c. ar gyfer cronfeydd strwythurol.
- Cytunodd y Prif Weinidog i ddosbarthu llythyr a anfonwyd i sefydliadau yn y sector gwirfoddol, yn rhoi cyngor ar sut y mae modd cael arian Ewropeaidd.
- Cytunodd y Prif Weinidog i ddarparu nodyn i'r Pwyllgor ynghylch Conswl Anrhydeddus Gweriniaeth Tsiec sydd newydd ei benodi.

## Eitem 4: Rhaglen Waith 2005 y Comisiwn Ewropeaidd - Adolygu'r gwaith craffu gan Bwyllgorau'r Cynulliad

Papur: EUR(2) 01-06 (p.2)

4.1 Cyflwynodd swyddogion y papur

Camau i'w Cymryd:

- Cytunodd y Cadeirydd y byddai'r materion gweithdrefnol a godwyd yn y Pwyllgor, ynghylch y protocol ar gyfer gwaith y pwyllgor o graffu a gweithredu ar bolisi'r Undeb Ewropeaidd, yn cael ei godi yng nghyfarfod y Panel Cadeiryddion ar 31 Ionawr. Cytunodd y Cadeirydd i adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf.

## Eitem 5: Rhaglen Waith 2006 y Comisiwn Ewropeaidd

Papur: EUR(2) 01-06 (p.3)
EUR(2) 01-06 (p.4)
EUR(2) 01-06 (p.5)

5.1 Cyflwynodd swyddogion y papur

5.2 Teimlai Aelodau fod y wybodaeth a ddarparwyd yn y tri phapur yn ddryslyd ond yn llawn gwybodaeth.

Camau i'w Cymryd:

- Y Cadeirydd i drafod mater y papurau gyda'r Clerc.
- Cytunodd y Prif Weinidog i ymchwilio i sefyllfa mudiad Undebau Llafur yr UE ar y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar hyn.
- Cytunodd y Prif Weinidog i ddarparu nodyn i'r Pwyllgor ynghylch ffurf y cynnig am Reoliad Cyngor i sefydlu'r Sefydliad Technoleg Ewropeaidd (EIT) a sut y byddai hwn yn cysylltu ag addysg.
- Cytunodd y Cadeirydd y bydd Llywyddiaeth Cymru dros y Rhanbarthau â Phwerau Deddfwriaethol yn cael ei gynnwys yn y flaenraglen waith a chytunodd y Prif Weinidog i ddarparu papur.
- Cytunodd y Clerc i ddosbarthu nodyn yn amlinellu blaenoriaethau'r Pwyllgor o ran blaenraglen waith y Comisiwn Ewropeaidd, i Aelodau ei gymeradwyo.

## Eitem 6: Rhwydwaith Monitro Sybsidiaredd Pwyllgor y Rhanbarthau

Papur: EUR(2) 01-06 (p.6)

6.1 Cyflwynodd swyddogion y papur

Camau i'w Cymryd:

- Cytunodd Aelodau i sefydlu is-bwyllgor sybsidiaredd, nododd y Cadeirydd y byddai hwn yn adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol y Pwyllgor a dylid cyflwyno enwau i'r Clerc.

## Eitem 7: Gwybodaeth am Lywyddiaeth yr Undeb Ewropeaidd

Papur: EUR(2) 01-06 (p.7)

7.1 Croesawodd y Pwyllgor y cyflwyniad gan Lysgennad Awstria

## Eitem 8: Y Diweddaraf gan Aelodau Pwyllgor y Rhanbarthau

8.1 Nid oedd unrhyw beth i'w adrodd.

Papur i'w nodi: Aelodau i nodi'r papur EUR(2) 01-06(p8)

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**